



Ein cyf/Our ref LG/02042/20

Janet Finch-Saunders MS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

24 Awst 2020

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Awst at Rebecca Evans MS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, ynghylch deiseb P-05-1016 yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun talebau cartrefi gwyrdd yng Nghymru, sef yr un peth â'r hyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar 7 Gorffennaf. Pasiwyd y llythyr i mi ei ateb gan fod gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi yn rhan o'm portffolio polisi.

Mae cynllun Llywodraeth y DU yn rhan o becyn o fesurau a gyhoeddwyd gan Ganghellor y Trysorlys yn Senedd y DU ddydd Mawrth 7 Gorffennaf, a gynlluniwyd i annog deiliaid tai i fuddsoddi mewn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref, yn benodol inswleiddio waliau a gosod drysau a ffenestri newydd. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU y bydd y cynllun hwn yn gymwys yn Lloegr yn unig. Gall cartrefi wneud cais am daleb i dalu hyd at ddwy ran o dair o gost gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref hyd at uchafswm o £5000 y cartref. Gall aelwydydd ar incwm isel iawn wneud cais am daleb o ddim mwy na £10,000 heb fod angen cyfraniad ariannol. Dim ond tan fis Mawrth 2021 y disgwylir i'r cynllun hwn redeg.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno cynllun talebau tebyg yma yng Nghymru ar hyn o bryd. Ers 2011, mae deiliaid tai yng Nghymru wedi elwa ar ein cynlluniau mwy hael sy'n cael eu darparu o dan y Rhaglen Cartrefi Cynnes. Drwy'r rhaglen hon, sydd wedi elwa ar fwy na 55,000 o aelwydydd ers ei lansio, mae cyllid o rhwng £5,000 a £12,000 ar gael ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni cartref a argymhellir yn dilyn asesiad tŷ cyfan.

Nid oes angen unrhyw gyfraniad ariannol gan ddeiliad y tŷ ar gyfer mesurau a gyflwynwyd o dan ein rhaglen, a gynlluniwyd i ganolbwyntio ein hymdrechion i helpu pobl sy'n cael trafferth i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal amgylchedd cartref diogel a chyfforddus am bris fforddiadwy.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O dan delerau contractau cyfredol y Rhaglen Cartrefi Cynnes, gwneir darpariaeth ar gyfer gwydr a drysau sy'n defnyddio ynni'n effeithlon. Mae hyn wedi'i gyfyngu i ddarparu gwydro eilaidd neu atal drafftiau o ffenestri a drysau yn unig, os argymhellir hynny fel rhan o'r asesiad tŷ cyfan. Mae cynnwys drysau a ffenestri allanol newydd ar y rhestr o fesurau cymeradwy a ddarperir drwy ein rhaglen yn fater y byddaf yn ymgynghori arno fel rhan o'r ymgynghoriad arfaethedig ar y cynllun drafft newydd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, y disgwyliaf iddo gael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Medi fan bellaf.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive style with a large, sweeping flourish at the end of the name.

**Lesley Griffiths AS/MS**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs